**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd ddydd Iau 10 Gorffennaf 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Mike Humphreys, Vicki Spencer-Francis, Emlyn Roberts; Caroline Sanger-Davies, Dewi Hughes, Paul Savage, Hugh Hesketh-Evans |
| **Trwy wahoddiad:** | Maria Richards (Llywodraeth Cymru)<br>Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru) |
| **Swyddogion Gweithredol:** | Jose Peralta, Prif Weithredwr<br>Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol<br>Meilyr Ceredig, Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau<br>John Richards, Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr<br>Jason Craig, Arweinydd Datblygu'r Farchnad<br>Pip Gill, Arweinydd Ymrwymiad Brand<br>Russ Thomas, Arweinydd Datblygu Polisi<br>Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth.<br><br>*Ar gyfer Eitem 10* – Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig;<br>Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru |

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd Lywodraeth Cymru am y ddarpariaeth.

Diolchodd a llongyfarchodd y Cadeirydd y Prif Swyddog Gweithredol a John T Davies am eu cyfweliadau yn ddiweddar ar Ffermio S4C.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd -

| | |
|---|---|
| 12 Mai – | Cyfarfod Teams gyda'r Athro Emmanuel Ogbonna CBE, Caerdydd, yn cael ei ddilyn gan gyfarfod Diweddaru Llywodraeth Cymru, |
| 15 Mai – | Pwyllgor Taliadau HCC |
| 19 Mai – | Bord Gron Gweinidogol |
| 21 Mai – | Defaid Cymru NSA, |
| 9 Mehefin – | Cyfarfod diweddaru Llywodraeth Cymru, |
| 10 Mehefin – | Digwyddiad Dathlu Bwyd a Ffermio NFU Cymru yng Nghaerdydd, |

12 Mehefin – Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams,
18 Mehefin – Bord Gron Gweinidogol
20 Mehefin – Bwrdd Ymgynghorol Strategol Cyswllt Ffermio,
21 Mehefin – Bord Gron Gweinidogol,
23 Mehefin – Bord Gron Gweinidogol,
24 Mehefin - Cinio BVA yng Nghaerdydd

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Mai 2025**

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

5. **Materion yn codi**

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

*Cytundeb Fframwaith*

Cafodd y ddogfen Fframwaith ei chwblhau a'i hanfon i'w chyfieithu. Caiff ei llofnodi yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf a'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru Ar ôl ei llofnodi, gwneir trefniadau i'r Dirprwy Brif Weinidog gyhoeddi llythyr cylch gwaith ar gyfer HCC.

Ymdriniwyd â materion eraill a oedd yn codi ar yr agenda.

6. **Adroddiadau HCC**

*a. Adroddiad Darparu a Digwyddiadau i Ddod*

Cymerwyd gan y Bwrdd fod yr adroddiad yn gywir. Y pwyntiau allweddol a amlygwyd oedd:

**Y Cadwyn Gyflenwi – Datblygu'r Farchnad**
- Cynhyrchwyd adroddiad ynghylch Clwb y Cigyddion, gyda gweithgareddau cymorth newydd yn cael eu cynnig. Caiff y rhain eu lansio yn Sioe Frenhinol Cymru;
- Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol cyn ac ar ôl yr ymgyrch gyda mân-werthwyr;
- Ymwelodd cyflenwr gwasanaethau bwyd blaenllaw o'r Eidal â Chymru yn ddiweddar fel rhan o genhadaeth fewnol a drefnwyd gan HCC.

Cafwyd trafodaeth ynghylch Clwb y Cigyddion a sut y bydd hyn yn cael ei symud ymlaen yn y ffordd fwyaf buddiol ac a fydd yn ychwanegu gwerth i gigyddion. Cytunwyd y byddai cynllun cryno ynghylch cynigion allweddol yn yr hirdymor yn ddefnyddiol i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Arweinydd Datblygu'r Farchnad**

**Marchnata Strategol a Chysylltiadau**
- Caiff Ymgyrch Cig Oen Cymru ei lansio yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru. Bydd nifer o fân-werthwyr yn cymryd rhan yn yr ymgyrch yng Nghymru a Lloegr.

Bydd HCC yn eu cefnogi pan fo cynnyrch ar gael gan ddefnyddio technolegau AdMaxim a Sky AdSmart;
- Cafwyd dau lysgennad gefnogi ymgyrchoedd, sef Jonathon 'Fox' Davies a Lauren Price, MBE;
- Gwnaed gwaith cyfryngau cymdeithasol gyda'r dylanwadydd Adele Nicoll;
- Bydd gwefan defnyddwyr wedi'i hadnewyddu yn cael ei lansio yr wythnos nesaf;
- Mae astudiaethau achos newydd yn cael eu llunio i hyrwyddo Porc Blasus. Mae HCC yn cefnogi cystadleuaeth perchyll y Clybiau Ffermwyr Ifanc a bydd yn gwneud gwaith parhaus gyda'r enillwyr.

**Y Gadwyn Gyflenwi – Cynhyrchwyr a Phroseswyr**
- Roedd gweithgaredd y grŵp Cig-weithio ar gyfer 2024-25 wedi'i gwblhau. Gofynnir am adborth ar y fenter gan gyfranogwyr. Mae grŵp 2025-26 yn cael ei ddethol;
- Dewiswyd un ysgolor ar gyfer Ysgoloriaeth HCC;
- Mynychodd HCC nifer o gyfarfodydd ynghylch y Tafod Glas;
- Penodwyd yr Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr i Bwyllgor Ymgynghorol Bwyd Cymru.

**Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**
- Parhaodd y gwaith gyda phartneriaid ardoll ar brosiectau fel RamCompare. Roedd HCC yn cefnogi Gwerthusiadau Genetig a Sganio CT unwaith eto, ar yr amod y byddai nodweddion amgylcheddol pellach yn cael eu cynnwys yn ogystal ag asesu nodweddion cynhyrchu.
- Mae HCC yn bartner cynghori cyswllt ar HWB Defnydd Tir Net Sero (LUNZ) a ariennir gan DEFRA/UKRI ac yn bartner gyda Phrifysgol Aberystwyth ac UWE ar brosiect Glaswelltir LUNZ;
- Parhaodd y trafodaethau gyda chontractwyr sy'n cyflawni ar gyfer prosiect Sylfaen AHDB ynghyd â chyflenwyr posibl eraill i gyflawni ar gyfer prosiect estynedig yng Nghymru. Cafodd cais am arian i gynnal y prosiect ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cafwyd dros 200 o ymatebion i'r holiadur Llinell Sylfaen Dŵr. Mae data'n cael ei asesu i ganfod faint o garbon gellir ei arbed ar ffermydd Cymru wrth ddefnyddio dŵr o'r ffermydd eu hunain yn hytrach na dŵr o'r prif gyflenwad;
- Bydd canlyniadau'r asesiad Sylfaen Dŵr yn cael eu cynnwys mewn adolygiad o'r Ffordd Gymreig ynghyd â chanfyddiadau ymchwil wedi'u diweddaru.

O ran y llythyr ar-y-cyd gan y byrddau ardoll at EUDR, cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar a darperir diweddariad maes o law.

**Gweithredu: Arweinydd Datblygu Polisi**

**Cyfathrebu**
- Cynhyrchwyd yr adroddiad terfynol ar gyfer ymchwiliad ETRA i HCC. Nid yw'r dyddiad cyhoeddi yn hysbys. Bydd HCC yn derbyn yr adroddiad ddeuddydd cyn ei gyhoeddi;
- Roedd HCC wedi darparu tystiolaeth i ymchwiliad prosesu bwyd ETRA;
- Bu trafodaeth barhaus gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu Gweledigaeth 2030.

*b. Briffio Sioe Frenhinol Cymru*

Darparodd y Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau ddiweddariad llafar am y gweithgareddau allweddol ar stondin HCC. Byddant yn cynnwys Brecwast HCC fore Llun gyda'r Dirprwy Brif Weinidog yn bresennol, sesiynau galw heibio dyddiol ynghylch Gweledigaeth 2030, amryw weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, a chyfleoedd i gyfarfod â mân-werthwyr a phroseswyr. Bydd trelar HCC wrth ymyl y

stondin a bydd yn darparu gweithgareddau i ddefnyddwyr ac arddangosiadau coginio. Darperir papur briffio llawn a theithlen cyn y sioe.

*c. Y manylion ariannol diweddaraf*

Cafodd yr uchod ei gyflwyno gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol, a fu'n tanlinellu'r pwyntiau allweddol.

Cyfrifon Rheoli Mawrth 2025

- Mae'r incwm hyd at gyfnod 12 yn llai nag yn y gyllideb wreiddiol (Mawrth 2024) gyda defaid 22% yn is, tra bod gwartheg i fyny 4%;
- Mae'r datganiadau ariannol drafft ar fin cael eu cwblhau. Bydd Archwilio Cymru yn dechrau ar eu gwaith ym mis Gorffennaf. Bydd datganiadau ariannol llawn yn cael eu cyflwyno i Archwiliad a Risg ym mis Hydref ac i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg)**

Cyfrifon Rheoli Mai 2025

- Ar hyn o bryd roedd yr incwm ardoll yn well na'r proffil;
- Mae diweddariad y rhagolwg dros dro yn rhagweld diffyg o £142k o'i gymharu â diffyg o £125k yn y gyllideb.

Nodwyd yr adroddiadau gan y Bwrdd.

## 7. Rhannu Gwybodaeth

*a. Crynodeb o Fwletin y Farchnad*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*b. Clwb Cigyddion*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*c. Ffurflen Rhyddhad Cyrff Bach o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan 2024-25*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*d. Menywod Busnes Cig – Siarter Busnes Bwyd*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

Cadarnhawyd bod HCC yn lofnodwr cefnogol i'r Siarter. Diolchodd y Cadeirydd i Uwch Swyddog Cyfathrebu HCC am ei gwaith ar hyn.

## 8. Pwyllgorau HCC

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

*a. I gael adroddiad llafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025*

Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad llafar a thynnodd sylw at y pwyntiau

allweddol.

- Adolygwyd Amodau Gorchwyl y Pwyllgor i ystyried gofynion y Cytundeb Fframwaith;
- Archwiliad allanol – cadarnhaodd Archwilio Cymru y cynllun archwilio ar gyfer 2024-25. Cyflwynwyd y llythyr Ymholiad Archwilio i'r Pwyllgor a chafodd ei gymeradwyo ganddo.
- Archwiliad Mewnol - cyflwynwyd adroddiadau archwilio Parhad Busnes TG a Rheoli Digwyddiadau ac Iechyd a Diogelwch. Nodwyd arferion da a lle gellir gwella. Bydd unrhyw gamau gweithredu .yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ym mis Hydref. Roedd Azets yn fodlon ar y cynnydd a wnaed ar argymhellion archwilio blaenorol;
- Rheoli Risg - cyflwynwyd y Fframwaith Sicrwydd Risg a thynnwyd sylw at bwyntiau allweddol. Cymeradwyodd y Pwyllgor welliannau archwaeth risg ar gyfer Cyllid a Diogelwch o 'Gofalus' i 'Lleiaf Posibl'
- Strategaeth a Pholisi Caffael - roedd y dogfennau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddaru'n gynhwysfawr i gyd-fynd â gofynion y fframwaith deddfwriaethol newydd. Cawsant eu cymeradwyo gan Pwyllgor;
- Cytundeb Fframwaith – cafodd hyn ei drafod fel y nodwyd yn Eitem 5 uchod;
- Amlder cyfarfodydd - ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf bydd y Pwyllgor yn ystyried cyngor arferion gorau i gyfarfod yn chwarterol;
- Adroddiad Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg - mae'r amodau gorchwyl yn nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd a bydd y Swyddog Cyfrifyddu yn crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Caiff yr adroddiad drafft yn ei adolygu gan y Pwyllgor a'i gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg)**

Cyflwynwyd adroddiadau o'r cyfarfod i'r Bwrdd a chawsant ei nodi ganddo.

*b. I gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Mai 2025*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

<u>Y Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy</u>

*c. I gael adroddiad llafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2025*

Cafwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Grŵp. Y pwyntiau allweddol a amlygwyd oedd:

- Trafodwyd cyfathrebu'r grŵp ynghylch materion y diwydiant ac amlinellodd Prif Swyddog Gweithredol HCC strategaeth a dull HCC o ymateb i geisiadau am sylwadau;
- Rhoddodd pob aelod ddiweddariad am weithgareddau a gwybodaeth berthnasol diweddar yn eu meysydd / busnesau;
- Rhoddodd HCC y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch a phrosiectau Ymchwil a Datblygu cyfredol;
- Amlinellodd Prif Swyddog Gweithredol HCC syniadau ar gyfer dyfodol y diwydiant cig coch a datblygiad Gweledigaeth 2030. Cafwyd trafodaeth eang ar yr heriau a'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw. Roedd y Grŵp yn barod iawn i gyfrannu at ddatblygiad y Weledigaeth.

Adroddodd Cadeirydd y Grŵp ei fod yn gyfarfod adeiladol iawn. Wrth symud ymlaen, mae'n amser cyfleus i adolygu'r Amodau Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp i gael y gefnogaeth orau i agweddau ymchwil a datblygu'r Weledigaeth yn y dyfodol.

*d. I gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Ionawr 2025*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

**9. Corfforaethol**

***a. Diweddariad Gweledigaeth 2030***

Cyflwynwyd yr uchod gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cynhyrchwyr a Phroseswyr.

Bydd yr arolwg ffermwyr yn cau ddiwedd mis Gorffennaf. Diolchwyd i'r Bwrdd am ei bresenoldeb mewn marchnadoedd i gynorthwyo i gael ffermwyr i gymryd rhan yn yr arolwg. Bydd gweithgaredd pellach yn digwydd i gael mwy o ymatebion cyn y dyddiad cau, gan gynnwys digwyddiadau dyddiol yn Sioe Frenhinol Cymru.

Mae 'Galwad am Farn y Diwydiant' yn cael ei datblygu i roi cyfle i randdeiliaid ymateb i'r prif bynciau a amlygwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cychwynnol. Bydd y drafft yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd i gael sylwadau.

Amlinellodd y Prif Swyddog Gweithredol y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid hyd yn hyn. Trafodwyd rhoi cyfle i'r Bwrdd gael mewnbwn i'r Weledigaeth. Bydd y posibilrwydd o drefnu sesiwn ym mis Medi yn cael ei archwilio.

**Gweithredu: Y Cadeirydd / Y Prif Weithredwr**

**10. Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig;**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Weinidog am ddarpariaeth ar gyfer y cyfarfod a neilltuo amser i fod yn bresennol.

Dechreuodd y Dirprwy Brif Weinidog drwy ddiolch i'r Bwrdd am y cyfle i fynychu'r cyfarfod. Roedd pethau wedi newid yn sylweddol ers ei gyfarfod diwethaf â'r Bwrdd, gyda llawer o heriau'n codi. Roedd ymgysylltiad HCC â'r diwydiant ar gyfer Gweledigaeth 2030 yn rhan hanfodol o'r trafodaethau ar yr heriau hyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd, targedau dadgarboneiddio, effaith niferoedd gostyngol da byw ar y sector prosesu a'r gallu i gynnal màs critigol o ran niferoedd da byw. Aeth yn ei flaen i ddweud ei bod yn bwysig i HCC fod yn fwrdd ardoll y gall y diwydiant ymddiried ynddo ac ymgysylltu ag ef, ac roedd cefnogaeth dda i'r syniadau y mae HCC yn eu cyflwyno.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Bwrdd, trafododd y Dirprwy Brif Weinidog egwyddorion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, a fydd â phwyslais cryf ar gefnogi'r math o ffermio sy'n gweithio'n dda yng Nghymru. Bydd yn cydnabod pwysigrwydd ffermydd bach a chanolig eu maint wrth gynnal cymunedau lleol, gan fod yn onest am yr heriau a'r angen i fyw ar y cyd â natur a'r amgylchedd. Bydd yn wirioneddol hygyrch i bawb ac yn darparu fframwaith cadarn i weithio oddi arno.

Mae gan y Cynllun ran i'w chwarae wrth gynnal niferoedd da byw i ddiogelu tirweddau a hyfywedd y sectorau cynhyrchu a phrosesu, a fydd yn y pen draw yn helpu i gynnal cymunedau gwledig. Mae gan HCC a'r Bwrdd ran i'w chwarae hefyd, a bydd

Llywodraeth Cymru yn edrych ar Gweledigaeth 2030 am syniadau ar gyfer cyflawni hyn. Bydd yr adnoddau sydd ar gael i HCC i helpu i wireddu amcanion y Weledigaeth yn chwarae rhan bwysig, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi a chydweithio â HCC er mwyn cyflawni'r amcanion.

Ar ran y Bwrdd, cafwyd geiriau clo gan Jack Evershed. Diolchodd i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei gefnogaeth i HCC ac am y posibilrwydd o gyllid grant yn cael ei ddarparu yn y dyfodol i gyflawni ei gylch gwaith. Croesawodd y Bwrdd y cydweithio agos parhaus gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi Gweledigaeth 2030.

**11. <u>Unrhyw Fater Arall</u>**

Cafwyd ymholiad ynghylch digwyddiad seiber diweddar a effeithiodd ar HCC. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y camau a gymerwyd yn dilyn y digwyddiad hwn. Nodwyd bod gan HCC yswiriant seiber.

Rhoddwyd gwybodaeth am ddau ddigwyddiad a gynhelir yn 2025 a fyddai o ddiddordeb i HCC, sef symposiwm Ffederasiwn Glaswelltir Ewrop a gynhelir yn Reading ym mis Medi a Chynhadledd Adran Cnydau Porthiant a Glaswelltau Hamdden Eucarpi a gynhelir yn Aberystwyth, hefyd ym mis Medi.

**12. <u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 11 Medi 2025 am 10.00am
Cyfarfod o'r Bwrdd – Dydd Iau 13 Tachwedd 2025 am 10.00am

**Llofnodwyd……………………………..**